



Cynllun Pensiwn
Llywodraeth Leol



Cronfa Bensiynau
CLWYD
Pension Fund

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Deall eich Datganiad Buddion

Pensiwn Blynyddol

Awst 2025

Tudalen Cynnwys

Pam ydw i wedi cael Datganiad Buddion Blynnyddol?	3
Pwynt i'w nodi.....	3
Cadwch yn ddiogel rhag sgamiau pensiwn	3
Adolygu eich Datganiad Buddion Blynnyddol	3
Manylion personol	3
Manylion Cyflogaeth	4
Eich aelodaeth fel oedd ar 31 Mawrth 2014	5
Crynodeb o'r Buddion ac Amcanestyniad hyd at Oed Ymddeol Arferol	5
Sut y cyfrifwyd eich pensiwn	5
Talu cyfraniadau CPLIL rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2014	6
Talu cyfraniadau CPLIL ers 1 Ebrill 2014	6
Crynodeb o'r buddion a gronnwyd hyd at 31 Mawrth 2025	7
Amcanestyniad hyd at eich oedran ymddeol arferol	7
Lwfans cyfandaliad.....	7
Cyfraniadau ychwanegol.....	7
Trosglwyddiadau i mewn	8
Debydau pensiwn	8
Lwfans blynnyddol	12
Buddion marw yn y swydd.....	12
Manylion mynegi dymuniad grant marwolaeth	13
Sut mae cysylltu â Chronfa Bensiynau Clwyd?	13

Pam ydw i wedi cael Datganiad Buddion Blynyddol?

Rydych wedi cael datganiad gan eich bod yn talu cyfraniadau pensiwn o'ch cyflog i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL). Trwy dalu'r cyfraniadau hyn, rydych chi'n cronni buddion pensiwn yn y CPLIL. Cronfa Bensiynau Clwyd yw gweinyddwr eich pensiwn ac mae'n gyfrifol am ofalu am eich cofnod(ion) pensiwn. Mae eich Datganiad Buddion Blynyddol yn eich galluogi i weld y manylion diweddaraf am eich buddion pensiwn.

Os ydych chi'n talu cyfraniadau CPLIL ar gyfer mwy nag un swydd, byddwch yn cael datganiad ar wahân ar gyfer pob swydd.

Pwynt i'w nodi

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd yr oed cynharaf y gallwch dynnu eich pensiwn yn cynyddu o 55 oed i 57 oed o 6 Ebrill 2028. Nid yw hyn yn berthnasol os ydych angen cymryd eich pensiwn yn gynt oherwydd salwch.

Fe allech gael eich gwarchod rhag y cynnydd hwn os gwnaethoch ymuno â'r CPLIL yng Nghymru a Lloegr cyn 4 Tachwedd 2021. Gallech hefyd fod wedi'ch gwarchod os gwnaethoch drosglwyddo pensiwn blaenorol i'r Cynllun, os yw rhai amodau penodol wedi'u bodloni. Fodd bynnag, dim ond pan fyddwch chi'n tynnu eich pensiwn CPLIL y byddwch chi'n gallu cael eich gwarchod, os yw rheolau'r Cynllun yn caniatáu ichi dynnu eich pensiwn cyn troi'n 57 oed.

Llywodraeth y DU sy'n gosod rheolau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Nid yw wedi ei gadarnhau eto os bydd yn caniatáu i aelodau, sy'n gymwys i gael eu gwarchod, gymryd eu pensiwn CPLIL cyn eu bod yn 57 mlwydd oed o 6 Ebrill 2028.

Cadwch yn ddiogel rhag sgamiau pensiwn

Mae sgamiau pensiwn yn driciau a all ddwyn yr holl arian yr ydych wedi'i gynilo ar gyfer ymddeoliad. Byddwch yn ofalus os bydd rhywun yn eich ffonio, yn anfon e-bost atoch neu'n cynnig rhywbeth i chi sy'n swnio'n rhy dda i fod yn wir. Gwiriwch fod unrhyw gynghorydd ariannol neu ddarparwr pensiynau wedi cofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) bob amser. Am fwy o gyngor ar sut i ddiogelu eich pensiwn, ewch i <https://www.fca.org.uk/scamsmart> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg) a lawr lwythwch y daflen ymwybyddiaeth o sgamiau gan y Grŵp Gweithredu ar Sgamiau Pensiwn [yma](#) (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg). Os hoffech gopi papur o'r daflen, cysylltwch â ni a gallwn anfon copi atoch.

Adolygu eich Datganiad Buddion Blynyddol

Manylion personol

Darllenwch y rhan hon o'ch datganiad yn ofalus. Mae'r adran hon yn cynnwys eich enw, dyddiad geni a statws priodasol. Mae'n bwysig eich bod yn gwirio bod yr holl fanylion yn gywir, gan y bydd unrhyw gamgymeriadau'n effeithio ar y ffigyrau pensiwn a ddangosir yn

eich datganiad. Er enghraifft, os yw eich dyddiad geni'n anghywir, bydd eich oedran pensiwn arferol yn anghywir. Os yw eich statws priodasol yn anghywir, bydd gwerth pensiwn eich partner sy'n goroesi yn anghywir. Mae'n bwysig bod gennym wybodaeth gywir i sicrhau eich bod yn cael yr holl fuddion sy'n ddyledus i chi pan fyddwch yn ymddeol. Os oes unrhyw fanylion sydd gennym ar eich cyfer yn anghywir, cysylltwch i roi gwybod i ni ac fe allwn eu diweddarw i chi. Fe fydd angen i ni weld prawf ar gyfer rhai newidiadau, fel tystysgrif berthnasol ar gyfer newid enw neu ddyddiad geni.

Dylech wirio bod y darnau canlynol o wybodaeth sydd gennym ar eich cyfer yn gywir:

- Cyfeiriad cartref
- Dyddiad geni
- Cyfenw cyfredol
- Statws priodasol

Manylion Cyflogaeth

Mae'r tabl isod yn egluro'r wybodaeth sydd yn yr adran manylion cyflogaeth. Mae'r manylion hyn wedi'u rhoi i ni gan eich cyflogwr ac maent wedi'u defnyddio i gyfrifo'ch buddion pensiwn a ddangosir ar eich datganiad. Mae'r wybodaeth ar eich datganiad yn seiliedig ar eich amgylchiadau ar 31 Mawrth 2025. Os ydych chi'n credu bod unrhyw ran o'r wybodaeth yn anghywir, cysylltwch â'ch cyflogwr yn uniongyrchol.

Y Pennawd ar eich Datganiad Buddion Blynnyddol	Aelodau sy'n talu cyfraniadau CPLIL ar hyn o bryd
Eich rhif cyfeirnod	Fel arfer, eich rhif cyfeirnod yw'r rhif cyflogau mae eich cyflogwr wedi'i roi i chi ar gyfer y gyflogaeth hon.
Dyddiad ymuno â'r Gronfa	Y dyddiad pan ddechreuoch dalu cyfraniadau pensiwn i'r CPLIL yn y swydd hon.
Cyflogwr	Pwy oedd eich cyflogwr ar 31 Mawrth 2025.
Adran o'r Cynllun	Mae gan y CPLIL brif adran ac adran 50:50. Yn y brif adran rydych yn talu cyfraniadau pensiwn ar y gyfradd lawn ac yn cronni eich pensiwn ar y gyfradd lawn (49fedau). Yn yr adran 50:50 rydych yn talu cyfraniadau ar hanner y gyfradd ac yn cronni eich pensiwn ar hanner y gyfradd (98fedau). Mae'r rhan hon o'ch datganiad yn dangos i chi ym mha ran o'r cynllun rydych chi ar 31 Mawrth 2025.
Cyflog terfynol	Dim ond i aelodau a oedd yn talu cyfraniadau pensiwn cyn 1 Ebrill 2014 mae'r cyflog a ddangosir yn yr adran hon yn berthnasol. Mae tudalen 6 yn y nodiadau hyn yn dangos sut mae'r cyflog terfynol yn y CPLIL yn gweithio. Os oeddech wedi cronni buddion pensiwn cyflog terfynol cyn i'r CPLIL newid ym mis Ebrill 2014, mae'r tâl cyflog terfynol wedi'i ddefnyddio i gyfrifo rhai o'r ffigyrau pensiwn yn eich datganiad. Os ydych chi erioed wedi gweithio'n rhan amser neu yn ystod y tymor yn unig, rydym bob amser yn defnyddio eich cyflog cyfwerth â llawn amser i gyfrifo eich buddion pensiwn.

Y Pennawd ar eich Datganiad Buddion Blynnyddol	Aelodau sy'n talu cyfraniadau CPLIL ar hyn o bryd
Tâl ECGA yn y brif adran	Mae'r adran hon yn dangos y cyflog gros rydych wedi'i ennill o 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025 a chyfraniadau llawn wedi'u tynnu ohono. Os nad ydych wedi talu cyfraniadau llawn, bydd y blwch hwn yn wag. Os gwnaethoch newid o'r brif adran i'r adran 50:50 hanner ffordd drwy'r flwyddyn, bydd gennych ffigwr cyflog yn yr adran hon ac yn yr adran 50:50 cyflog Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisio hefyd.
Tâl ECGA yn adran 50:50	Mae'r adran hon yn dangos y cyflog gros rydych wedi'i ennill o 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025 gyda hanner cyfraniadau wedi'u tynnu ohono. Os nad ydych wedi talu hanner cyfraniadau, bydd y blwch hwn yn wag. Os gwnaethoch newid o'r adran 50:50 i'r brif adran hanner ffordd drwy'r flwyddyn, bydd gennych ffigwr cyflog yn yr adran hon ac yn yr adran gyflog Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisio hefyd.

Eich aelodaeth fel oedd ar 31 Mawrth 2014

Dim ond os gwnaethoch ddechrau talu cyfraniadau CPLIL cyn 1 Ebrill 2014 y bydd gwybodaeth yn y rhan hon o'ch datganiad. Os gwnaethoch dalu cyfraniadau cyn hynny, mae hyn yn golygu eich bod chi wedi cronni rhywfaint o fuddion pensiwn cyflog terfynol. Rydym ni'n defnyddio eich aelodaeth ar 31 Mawrth 2014 yn rhan o waith cyfrifo eich pensiwn cyflog terfynol. Gallwn gyfrifo eich aelodaeth gan fod eich cyflogwr yn dweud wrthym pa oriau rydych wedi eu gweithio yn eich swydd gyda nhw a pha gyfnodau o seibiant rydych wedi ei gael o'r gwaith, er enghraifft seibiant o ganlyniad i streic neu absenoldeb sy'n gysylltiedig â phlant. Os ydych chi'n credu bod unrhyw ran o'r wybodaeth yn anghywir, cysylltwch â'ch cyflogwr yn uniongyrchol.

Mae'r siart ar [tudalen 6](#) yn y nodiadau hyn yn egluro sut mae'r aelodaeth hon yn cael ei defnyddio yn y cynlluniau cyflog terfynol.

Crynodeb o'r Buddion ac Amcanestyniad hyd at Oed Ymddeol Arferol

Er mwyn i chi ddeall y ffigyrau pensiwn yn eich datganiad, mae'n bwysig eich bod yn deall yn gyntaf sut mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gweithio.

Sut y cyfrifwyd eich pensiwn

Mae'r CPLIL yn gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio. Mae hyn yn golygu nad yw gwerth eich pensiwn wedi'i seilio ar y cyfraniadau pensiwn yr ydych chi'n eu talu. Yn hytrach na hynny rydym yn cyfrifo eich pensiwn ar sail:

- Am ba hyd rydych chi wedi bod yn talu cyfraniadau;
- Eich cyflog pensiynadwy yn ystod eich swydd;
- Yr oriau yr ydych wedi'u gweithio, ar gyfer pensiwn a gronnwyd gennych cyn 1 Ebrill 2014 yn unig; ac
- Unrhyw absenoldebau sydd gennych.

Yn ddibynnol ar pryd wnaethoch chi ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, efallai bydd eich pensiwn yn cynnwys 1, 2 neu 3 rhan oherwydd newidiadau i reolau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol dros amser. Er mwyn deall beth mae eich pensiwn yn ei gynnwys, darllenwch ar draws y siart a ddangosir ar y dudalen nesaf.

Talu cyfraniadau CPLIL hyd at ac yn cynnwys 31 Mawrth 2008	Cyfradd gronni o 80fedau (a elwir hefyd yn gyfradd gronni)	Cyfrifir eich pensiwn blynyddol gan ddefnyddio'r swm canlynol: Blynyddoedd a dyddiau o aelodaeth yn y cynllun $\div 80 \times$ y cyflog rydych wedi talu cyfraniadau arno (Cyflog pro rata i amser llawn os oeddech yn gweithio rhan amser neu yn ystod y tymor)	Mae'ch cyfandaliad awtomatig fel rheol yn ddi-dreth ac yn cael ei gyfrifo yn defnyddio'r swm yma: Tair gwaith eich gwerth pensiwn blynyddol yn y cynllun 80fedau hwn Mae gennych hefyd opsiwn i gael cyfandaliad mwy wrth ymddeol drwy droi rhywfaint o'ch pensiwn blynyddol yn gyfandaliad	Oedran ymddeol arferol rhwng 60 a 65 (yn dibynnu ar yr achos unigol)
Talu cyfraniadau CPLIL rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2014	Cyfradd gronni o 60fedau (a elwir hefyd yn gyfradd gronni)	Cyfrifir eich pensiwn blynyddol gan ddefnyddio'r swm canlynol: Blynyddoedd a dyddiau o aelodaeth yn y cynllun $\div 60 \times$ y cyflog rydych wedi talu cyfraniadau arno (Cyflog pro rata i amser llawn os oeddech yn gweithio rhan amser neu yn ystod y tymor)	Ni cheir cyfandaliad awtomatig. Mae opsiwn i greu un wrth ymddeol trwy droi rhywfaint o'ch pensiwn blynyddol yn gyfandaliad. Mae hyn fel rheol yn ddi-dreth.	Oedran ymddeol arferol o 65
Talu cyfraniadau CPLIL ers 1 Ebrill 2014	Cyfradd gronni o 49fedau os ydych yn talu cyfraniadau llawn (a elwir hefyd yn gyfradd gronni) Cyfradd gronni o 98fedau os ydych yn talu hanner cyfraniadau (a elwir hefyd yn gyfradd gronni)	Gan ddefnyddio 1 Ebrill i 31 Mawrth fel blwyddyn cynllun pensiwn, mae enghraifft o sut y cyfrifir eich pensiwn blynyddol isod: Blwyddyn cynllun 1: cyflog gwirioneddol gros rydych wedi talu cyfraniadau arno $\div 49^*$ Blwyddyn cynllun 2: cyflog gwirioneddol gros rydych wedi talu cyfraniadau arno $\div 49^*$ Blwyddyn cynllun 3: cyflog gwirioneddol gros yr ydych wedi talu cyfraniadau arno $\div 49^*$ Pan fyddwch yn rhoi'r gorau i dalu cyfraniadau pensiwn, caiff holl flynyddoedd y cynllun eu hadio at ei gilydd i gadarnhau cyfanswm y pensiwn rydych wedi'i gronni <i>*Os ydych yn talu hanner cyfraniadau, bydd y cyflog gwirioneddol gros rydych wedi talu cyfraniadau arno'n cael ei rannu â 98 yn lle 49</i>	Ni cheir cyfandaliad awtomatig. Mae opsiwn i greu un wrth ymddeol trwy droi rhywfaint o'ch pensiwn blynyddol yn gyfandaliad. Mae hyn fel rheol yn ddi-dreth.	Yr oedran ymddeol arferol yw oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65 oed), pa un bynnag yw'r hynaf

Crynodeb o'r buddion a gronnwyd hyd at 31 Mawrth 2025

Nid yw'r ffigyrau yn yr adran hon yn rhoi ystyriaeth i unrhyw ostyngiadau am ymddeol yn gynnar. Yn hytrach, mae'r ffigyrau'n dangos faint yw gwerth eich buddion pensiwn pe baech wedi rhoi'r gorau i dalu cyfraniadau pensiwn y CPLIL ar 31 Mawrth 2025 ond wedyn yn aros tan eich oedran pensiwn arferol i gymryd eich pensiwn.

Amcanestyniad hyd at eich oedran ymddeol arferol

Mae'r ffigyrau yn yr adran hon yn dangos beth allai gwerth eich pensiwn fod yn y dyfodol os byddwch yn parhau i dalu cyfraniadau CPLIL ac nad yw eich swydd yn newid o nawr tan eich oedran pensiwn arferol. Mae'r amcangyfrif yn seiliedig ar yr elfennau hyn:

- Eich bod yn aros yn yr un swydd
- Eich bod yn ennill yr un cyflog
- Eich bod yn gweithio'r un oriau

Os ydych chi eisoes wedi mynd heibio eich oedran pensiwn arferol, bydd yr adran hon yn dangos £0.00. Os hoffech gael amcangyfrif ar gyfer unrhyw oedran ymddeol hyd at 75 oed, cysylltwch â ni. Mae ein manylion cyswllt i'w gweld ar ddiwedd y nodiadau hyn.

Lwfans cyfandaliad

Pan fyddwch chi'n ymddeol, fe fyddwch chi hefyd yn gallu troi rhywfaint o'ch pensiwn blyneddol mewn i gyfandaliad os ydych chi'n dymuno.

Telir y cyfandaliad yn ddi-dreth i'r rhan fwyaf o aelodau, ond mae terfyn ar faint o arian parod di-dreth y gallwch ei gymryd o gynlluniau pensiwn y DU. Mae Cyllid a Thollau EF yn rhoi terfyn ar faint o gyfandaliad di-dreth y gallwch ei gymryd pan fydd eich pensiwn yn cael ei dalu i chi. Gelwir y terfyn hwn yn lwfans cyfandaliad. Ar hyn o bryd, y cyfandaliad mwyaf yw'r isaf o'r canlynol:

- 25% o werth cyfalaf eich buddion
- £268,275*
- £268,275* yn llai na chyfanswm y cyfandaliadau rydych chi wedi'u cymryd eisoes

*Os oes gennych chi warchodaeth Lwfans Oes ddilys, o bosibl y gallech gymryd cyfandaliad sy'n fwy na £268,275.

Bydd yn gyfandaliad di-dreth fel arfer, ond os ewch chi dros derfyn y lwfans cyfandaliad, bydd rhaid i chi dalu treth ar y swm uwchlaw'r terfyn ar eich cyfradd ymylol.

Cyfraniadau ychwanegol

Os ydych chi wedi talu cyfraniadau pensiwn ychwanegol am flynyddoedd ychwanegol, cyfraniadau pensiwn ychwanegol (CPY) neu gyfraniadau rheolaidd ychwanegol (CRHY), mae'r rhain wedi'u cynnwys ar eich datganiad.

Os ydych wedi talu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY) gyda Chronfa Bensiynau Clwyd, nid yw'r rhain wedi eu cynnwys. Byddwch yn derbyn datganiad ar wahân gan y darparwr CGY. Bydd eich CGY yn cael ei gadw gyda naill ai Prudential neu Utmost Life.

Trosglwyddiadau i mewn

Os ydych wedi trosglwyddo pensiynau blaenorol i mewn i'ch buddion CPLIL gyda Chronfa Bensiynau Clwyd, bydd hyn hefyd wedi'i gynnwys yn y ffigyrau ar eich datganiad cyn belled ag y cwblhawyd y trosglwyddiad erbyn 31 Mawrth 2025. Os cwblhawyd y trosglwyddiad ar ôl y dyddiad hwn, bydd y ffigyrau yn cael eu cynnwys yn natganiad y flwyddyn nesaf.

Debydau pensiwn

Efallai y bydd gennych ddebyd ar eich pensiwn oherwydd:

- Bod gorchymyn rhannu pensiwn mewn grym o ganlyniad i ysgariad neu ddiddymu partneriaeth sifil, ac felly eich bod wedi rhoi cyfran o'ch pensiwn i'ch cyn-bartner
- Eich bod chi'n gorfod talu treth lwfans blynyddol gan fod eich pensiwn wedi cynyddu'n sylweddol flwyddyn ar ôl blwyddyn a'ch bod chi wedi mynd dros drothwy Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Os ydych chi wedi dewis i ni dalu'r bil treth ar eich rhan drwy'r opsiwn Cynllun yn Talu, bydd gennych chi ddebyd pensiwn gyda ni. Mae'r taliad treth hwn wedyn yn cael ei dynnu o werth eich buddion CPLIL.

Darllenwch yr eglurhad yn y tabl isod. Fe fyddant yn eich helpu chi i ddeall y ffigyrau yn adrannau'r "Gynodeb o Fuddion a gronnwyd hyd at 31 Mawrth 2025" a'r "Amcanestyniad hyd at Oed Ymddeol Arferol" yn eich datganiad.

Y Pennawd ar eich Datganiad Buddion Blynnyddol	Crynodeb o'r buddion a gronnwyd hyd at 31 Mawrth 2025	Amcanestyniad hyd at eich Oedran Ymddeol Arferol
Taladwy o (oedran ymddeol arferol):	Mae'r adrannau hyn yn dangos y dyddiad a'r oed pan fyddwch yn cyrraedd oedran pensiwn arferol yn y CPLIL. Hyn fydd naill ai eich Oedran Pensiwn y Wladwriaeth neu 65 oed (pa un bynnag sydd olaf). Mae'n bwysig eich bod yn gwirio bod y dyddiad geni sydd gennym ar eich cyfer yn adran manylion personol eich datganiad yn gywir, gan y bydd hyn yn effeithio ar yr oedran ymddeol arferol a ddangosir ar eich datganiad.	
Dyddiad ymddeol arferol:		
Oedran ymddeol arferol (blynnyddoedd /dyddiau):		
Pensiwn blynnyddol:	Mae hwn yn dangos gwerth eich pensiwn blynnyddol ar sail eich aelodaeth o'r dyddiad y gwnaethoch ddechrau talu cyfraniadau pensiwn hyd at 31 Mawrth 2025. Mae'n rhoi ystyriaeth i'r cynllun pensiwn 80fedau cyflog terfynol, 60fedau cyflog terfynol a'r cynllun pensiwn cyfartaledd gyrfa fel yr eglurwyd yn gynharach. Nid yw'r ffigwr yn yr adran hon yn rhoi ystyriaeth i unrhyw ostyngiadau am ymddeol yn gynnar. Am y tro cyntaf eleni, rydym ni'n dangos sut mae rhwymedi McCloud yn effeithio ar werth eich pensiwn blynnyddol. Os ydych chi'n gymwys ar gyfer rhwymedi McCloud, mae'ch swm terfynol amcangyfrifedig gwarantedig wedi'i gynnwys yn y ffigwr pensiwn blynnyddol dan yr adran hon o'ch datganiad. Mae'ch llythyr eglurhaol, sydd wedi'i gynnwys gyda'ch datganiad, yn egluro a ydych chi'n gymwys ar gyfer rhywmedi McCloud ai peidio. Efallai y bydd rhai aelodau yn cael llythyr yn cadarnhau ein bod ni wrthi'n cyfrifo i weld a ydych chi'n gymwys.	Mae hwn yn dangos gwerth posibl eich pensiwn blynnyddol ar sail amcangyfrif o'ch aelodaeth o'r dyddiad y gwnaethoch ddechrau talu cyfraniadau pensiwn hyd at eich oedran pensiwn arferol. Mae'n rhoi ystyriaeth i'r cynllun pensiwn 80fedau cyflog terfynol, 60fedau cyflog terfynol a'r cynllun pensiwn cyfartaledd gyrfa fel yr eglurwyd yn gynharach. Am y tro cyntaf eleni, rydym ni'n dangos sut mae rhwymedi McCloud yn effeithio ar werth eich pensiwn blynnyddol. Os ydych chi'n gymwys ar gyfer rhwymedi McCloud, mae'ch swm terfynol amcangyfrifedig gwarantedig wedi'i gynnwys yn y ffigwr pensiwn blynnyddol dan yr adran hon o'ch datganiad. Mae'ch llythyr eglurhaol, sydd wedi'i gynnwys gyda'ch datganiad, yn egluro a ydych chi'n gymwys ar gyfer rhywmedi McCloud ai peidio. Efallai y bydd rhai aelodau yn cael llythyr yn cadarnhau ein bod ni wrthi'n cyfrifo i weld a ydych chi'n gymwys.

Y Pennawd ar eich Datganiad Buddion Blynnyddol	Crynodeb o'r buddion a gronnwyd hyd at 31 Mawrth 2025	Amcanestyniad hyd at eich Oedran Ymddeol Arferol
Swm gwarantedig terfynol:	Mae swm gwarantedig terfynol yn swm ychwanegol o bensiwn sy'n ddyledus i chi ar ôl i chi ymddeol: • os ydych chi'n gymwys am rwymedi McCloud, ac • os byddai eich pensiwn yn uwch pe baem yn ei gyfrifo o dan yr hen gynllun cyflog terfynol (ar gyfer pensiwn a gronnwyd rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2022 yn unig) Os ydych chi'n gymwys am rwymedi McCloud, fe welwch adran Swm Gwarantedig Terfynol (FGA) ar eich datganiad. Nid yw'r swm gwarantedig terfynol hwn yn swm ychwanegol o bensiwn blynnyddol. Dadansoddiad yn unig ydyw o'r hyn sydd wedi'i gynnwys eisoes yn yr adran pensiwn blynnyddol ar eich datganiad. Bydd Cronfa Bensiynau Clwyd yn cyfrifo eich swm gwarantedig terfynol pan fyddwch yn cymryd eich pensiwn. Mae'r swm terfynol yn ddibynnol ar sawl ffactor, gan gynnwys eich oedran pan fyddwch chi'n ymddeol. O bosibl y bydd y swm gwarantedig terfynol yn uwch, yn is neu'n amherthnasol pan fyddwch chi'n ymddeol. Os na fyddwch chi'n gymwys neu os ydym ni wrthi'n cyfrifo a ydych chi'n gymwys, ni fyddwch yn gweld yr adran swm gwarantedig terfynol ar eich datganiad pensiwn 2025.	
Pensiwn blynnyddol ar ôl tynnu'r debyd pensiwn:	Ni fydd y rhan fwyaf o aelodau yn gweld yr adran hon ar eu Datganiad Buddion Blynnyddol. Caiff y mathau o ddebydau eu hegluro'n gynharach yn y canllaw hwn. Os ydych chi'n aelod debyd pensiwn, gwerth y pensiwn blynnyddol yn yr adran hon fydd y swm sy'n weddill ar ôl tynnu'r debyd o werth eich pensiwn blynnyddol.	Ni fydd y rhan fwyaf o aelodau yn gweld yr adran hon ar eu Datganiad Buddion Blynnyddol. Caiff y mathau o ddebydau eu hegluro'n gynharach yn y canllaw hwn. Os ydych chi'n aelod debyd pensiwn, y gwerth yn yr adran hon fydd y pensiwn blynnyddol y gallech ei gronni o'r dyddiad dechrau talu cyfraniadau pensiwn hyd at eich oedran pensiwn arferol, ond ar ôl tynnu'r debyd o werth eich pensiwn blynnyddol.

Y Pennawd ar eich Datganiad Buddion Blynyddol	Crynodeb o'r buddion a gronnwyd hyd at 31 Mawrth 2025	Amcanestyniad hyd at eich Oedran Ymddeol Arferol
Cyfandaliad awtomatig (os ydych yn y cynllwyn cyn 1 Ebrill 2008):	Mae hwn yn dangos gwerth eich cyfandaliad awtomatig ar 31 Mawrth 2025. Mae'r cyfandaliad awtomatig wedi ei seilio ar aelodaeth 80fedau cyflog terfynol yn unig. Nid yw'r ffigwr yn yr adran hon yn rhoi ystyriaeth i unrhyw ostyngiadau am ymddeol yn gynnar. Mae cyfandaliadau fel arfer yn ddi-dreth.	Mae hwn yn dangos gwerth posibl eich cyfandaliad awtomatig pe baech yn ei gymryd ar eich oedran pensiwn arferol. Mae'r cyfandaliad awtomatig wedi ei seilio ar aelodaeth 80fedau cyflog terfynol yn unig. Mae cyfandaliadau fel arfer yn ddi-dreth.
Cyfandaliad awtomatig heb y debyd pensiwn:	Ni fydd y rhan fwyaf o aelodau yn gweld yr adran hon ar eu Datganiad Buddion Blynyddol. Caiff y mathau o ddebydau eu hegluro'n gynharach yn y canllaw hwn. Os ydych chi'n aelod debyd pensiwn, gwerth y cyfandaliad awtomatig yn yr adran hon fydd y swm sy'n weddill ar ôl tynnu'r debyd o werth eich cyfandaliad .	
Pensiwn blynyddol partner sy'n goroesi:	Mae hyn yn dangos beth yw gwerth pensiwn partner sy'n goroesi hyd yma ar 31 Mawrth 2025. Mae pensiynau partner sy'n goroesi yn daladwy i ŵr, gwraig, partner sifil neu bartner cymwys sy'n cyd-fyw.	Mae'r adran hon yn dangos beth allai gwerth pensiwn y partner sy'n goroesi fod: • Os ydych chi'n parhau i dalu cyfraniadau CPLIL o hyn tan eich oedran ymddeol arferol, a • Phe baech chi'n marw ar eich oedran pensiwn arferol tra oeddech yn dal i weithio i'ch cyflogwr Mae pensiynau partner sy'n goroesi yn daladwy i ŵr, gwraig, partner sifil neu bartner cymwys sy'n cyd-fyw.
Pensiwn blynyddol ar ôl y mwyafswm trosiad: a Cyfanswm cyfandaliad ar ôl y mwyafswm trosiad:	Pan fyddwch chi'n ymddeol, bydd angen i chi benderfynu a ydych chi eisiau troi rhywfaint o'ch pensiwn blynyddol yn gyfandaliad untro. Am bob £1 o pensiwn blynyddol yr ydych chi'n dewis ei ildio, fe gewch chi gyfandaliad o £12. Fel arfer bydd y cyfandaliad yn ddi-dreth. Mae'r ffigyrau yn yr adran hon yn dangos y lleiafswm o pensiwn blynyddol a'r uchafswm o gyfandaliad y gallech eu cael pe byddech yn: • Penderfynu troi pensiwn blynyddol yn gyfandaliad, ac • Yn rhoi'r gorau i dalu cyfraniadau CPLIL ar 31 Mawrth 2025, ac • Yn aros tan eich oedran pensiwn arferol i gymryd eich buddion pensiwn	Pan fyddwch chi'n ymddeol, bydd angen i chi benderfynu a ydych chi eisiau troi rhywfaint o'ch pensiwn blynyddol yn gyfandaliad untro. Am bob £1 o pensiwn blynyddol yr ydych chi'n dewis ei ildio, fe gewch chi gyfandaliad o £12. Fel arfer bydd y cyfandaliad yn ddi-dreth. Mae'r ffigyrau yn yr adran hon yn dangos y lleiafswm o pensiwn blynyddol a'r uchafswm o gyfandaliad y gallech eu cael pe byddech yn: • Penderfynu troi pensiwn blynyddol yn gyfandaliad, a • Pheidio â rhoi'r gorau i dalu cyfraniadau CPLIL tan eich oedran pensiwn arferol

Lwfans blynyddol

Eich lwfans blynyddol yw'r swm y gall gwerth eich buddion pensiwn gynyddu mewn blwyddyn dreth heb i chi orfod talu tâl treth. Os yw gwerth eich cynilion pensiwn chi o 6 Ebrill i 5 Ebrill yn fwy na'ch lwfans blynyddol, bydd y swm dros ben yn cael ei drethu fel incwm. Mae'r gwiriad lwfans blynyddol hwn yn cynnwys cynilion pensiwn y tu allan i'r CPLIL. Nid yw'r rhan fwyaf o aelodau'n cael eu heffeithio gan y lwfans blynyddol.

Eich cyfyngiad lwfans blynyddol safonol presennol yw £60,000. Mae'r wybodaeth ar eich datganiad ar gyfer 2025 wedi ei seilio ar faint rydych wedi ei ddefnyddio o'r terfyn lwfans blynyddol £60,000 yn ystod blwyddyn dreth 2024/2025.

Os oes gennych chi fwy nag un swydd a'ch bod yn talu cyfraniadau CPLIL i Gronfa Bensiynau Clwyd ar gyfer y swyddi hynny, bydd y lwfans blynyddol ar eich datganiadau'n dangos cyfanswm eich lwfans blynyddol ar draws pob swydd.

Os yw'r swm yn yr adran hon o'ch datganiad yn llai na £60,000, yna ni fydd treth yn cael ei chodi ar eich pensiwn CPLIL ar gyfer blwyddyn dreth 2024/2025.

Os yw'r swm yn yr adran hon yn agos at neu'n fwy na £60,000, yna byddwch yn cael Datganiad Cynilion Pensiwn gennym ni ym mis Hydref 2025. Bydd y Datganiad Cynilion Pensiwn yn dangos gwybodaeth am eich lwfans blynyddol yn unig a bydd yn egluro beth i'w wneud nesaf os bydd angen i chi dalu treth.

Os ydych chi'n meddwl y gallech chi gael eich effeithio a'ch bod eisiau gwybodaeth fwy manwl, gallwch ddarllen ein taflen ffeithiau **Trethiant Pensiynau: Lwfans Blynyddol** sydd ar gael yn yr adran **ffurflenni ac adnoddau** ar ein gwefan.

Buddion marw yn y swydd

Fel aelod o'r CPLIL pan rydych yn marw, mae yna daliad posibl: cyfandaliad grant marwolaeth a phensiwn partner sy'n goroesi. Mae'r tabl isod yn egluro'r ffigyrau ar eich Datganiad Buddion Blynyddol.

Cyfandaliad marw yn y swydd	Mae'r ffigwr sydd i'w weld ar eich datganiad yn seiliedig ar beth fyddai'r grant marwolaeth wedi bod pe baech wedi marw tra'n dal i weithio ar 31 Mawrth 2025. Mae'n defnyddio teirgwaith y ffigwr Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrizio sydd i'w weld yn yr adran manylion cyflogaeth o'ch Datganiad Buddion Blynyddol. Y rheswm am hyn yw am fod gwerth y grant marwolaeth deirgwaith eich cyflog pensiynadwy tybiedig.
Pensiwn blynyddol partner sy'n goroesi	Mae'r adran hon yn dweud faint fyddai pensiwn y partner sy'n goroesi wedi bod pe baech wedi marw (tra roeddech yn dal yn gyflogedig) ar 31 Mawrth 2025. Mae pensiynau partner sy'n goroesi yn daladwy i ŵr, gwraig, partner sifil neu bartner cymwys sy'n cyd-fyw.

Mae'n rhaid i unrhyw grant marwolaeth ystyried a oes gennych chi unrhyw bensiynau eraill mewn Cronfeydd CPLIL eraill. Byddwn yn gwirio gyda Chronfeydd CPLIL eraill yng Nghymru a Lloegr i weld a oes gennych:

- unrhyw gyfrifon pensiwn gohiriedig gyda nhw: hynny yw, nad oeddech bellach yn talu cyfraniadau CPLIL ond nad oeddech yn derbyn taliadau pensiwn eto
- unrhyw gyfrifon pensiynwr gyda nhw; hynny yw, eich bod yn derbyn taliadau pensiwn o'r CPLIL

Yna bydd y grant sy'n daladwy yr **uchaf** o'r:

- swm marwolaeth yn y swydd o deirgwaith eich cyflog pensiynadwy tybiedig yn ogystal â gwerth unrhyw Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol; neu
- gyfanswm y buddion marwolaeth o'ch cyfrifon gohiriedig neu bensiynwr yn y gronfa hon neu gronfa arall y CPLIL

Manylion mynegi dymuniad grant marwolaeth

Gall eich buddiolwyr grant marwolaeth fod yn un neu fwy o aelodau'r teulu, ffrindiau neu elusennau. Heb ffurflen mynegi dymuniad ddilys, telir y grant marwolaeth i'ch cynrychiolydd personol, er enghraifft, eich Ystâd.

Mae'r adran hon yn eich datganiad yn dangos pwy rydych wedi eu henwebu ar hyn o bryd i gael unrhyw grant marwolaeth sy'n daladwy, a'r ganran a nodwyd gennych y dylid ei thalu i bob un ohonynt. Os yw'r adran hon yn wag neu os nad yw enwau eich buddiolwyr yn gyfredol mwyach, mae'n bwysig eich bod yn diweddarau eich cofnod mynegi dymuniad. Gallwch wneud hyn drwy fewngofnodi i'ch cyfrif **Hunan Wasanaeth Aelodau (HWA)** a chlicio ar yr adran **Enwebiad(au) Grant Marwolaeth**, neu drwy lenwi ffurflen mynegi dymuniad y gellir dod o hyd iddi o dan yr **adran ffurflenni ac adnoddau** ar ein gwefan. Os oes angen copi papur arnoch, cysylltwch gyda ni.

Sut mae cysylltu â Chronfa Bensiynau Clwyd?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni gan ddefnyddio un o'r dewisiadau isod, gan nodi eich enw a'ch Rhif Yswiriant Gwladol. Bydd hyn yn ein helpu ni i ddod o hyd i'ch cofnodion pensiwn ac ateb eich ymholiad.

Rhif ffôn: 01352 702875

E-bost: pensiynau@siryfflint.gov.uk

Cyfeiriad: Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Gwefan: cronfabensiynauclwyd.org.uk



cronfabensiynauclwyd.org.uk

Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.